Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
—
Welsh Parliament
**Economy, Infrastructure and Skills Committee**

Elin Jones AS
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes
Senedd Cymru

25 Mehefin 2020

Annwyl Lywydd a’r Pwyllgor Busnes,

Ar 2 Gorffennaf, dyrannodd y Pwyllgor Busnes Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethi Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau. Y dyddiad cau ar gyfer adrodd a roddwyd oedd 2 Gorffennaf. Mae'r Bil y mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn ymwneud ag ef yn Fil ailgyflwyno a gafodd ei ddileu o ganlyniad i etholiad cyffredinol 2019.

Pan drafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ei ailadroddiad cyntaf, ni welsom fod unrhyw reswm dros wrthwynebu bod y Cynulliad, fel yr oedd bryd hynny, yn cytuno ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a oedd yn gysylltiedig â'r Memorandwm.

Bryd hynny, gwnaethom gyhoeddi adroddiad yr wyf yn fodlon sy'n dal i fod yn berthnasol. Yn hynny o beth, nid wyf yn teimlo mai'r defnydd gorau o amser y Pwyllgor fyddai iddo ailedrych ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol nac ailgyhoeddi'r adroddiad, ac o'r herwydd rwy'n fodlon bod yr adroddiad a gyhoeddwyd fis Gorffennaf 2019, ynghlwm, yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r ddadl.

Yn gywir,

Russell George AS
Cadeirydd , Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddESS@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEIS@senedd.wales
0300 200 6565